| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **22 Mehefin 2026** |
| **TEITL:** | **ADOLYGIAD O'R DATGANIAD POLISI HAPCHWARAE** |
| **DIBEN:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH YR ADRAN AMGYLCHEDD** |

1. **PWRPAS**

1.1 Diben yr adroddiad hwn yw cyflwyno Datganiad Polisi Hapchwarae drafft i gael ei ystyried a'i gymeradwyo cyn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus yn unol â Deddf Hapchwarae 2005. (Atodiad 1)

2. **CEFNDIR A CHYFLWYNIAD**

2.1 At ddibenion Deddf Hapchwarae 2005 (y Ddeddf), mae Cyngor Gwynedd yn cael ei ystyried yn Awdurdod Trwyddedu ac mae'n gyfrifol am roi a rheoleiddio trwyddedau eiddo, gan gynnwys eiddo sy'n darparu bingo, swyddfeydd betio, arcedau diddanu ac ati.
Mae'r Awdurdod hefyd yn gyfrifol am gofrestru loterïau bychain ac am roi hawlenni peiriannau hapchwarae i dafarndai.

2.2 Nid yw pob math o hapchwarae yn cael ei reoleiddio gan Awdurdodau Lleol; er enghraifft, mae'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol (FSA) a Chomisiwn y Loteri Genedlaethol yn parhau i reoleiddio betio gwasgar yn ogystal â'r Loteri Genedlaethol.

2.3 Y Comisiwn Hapchwarae sy'n gyfrifol am roi trwyddedau gweithredu a phersonol i hapchwarae masnachol (megis casinos a neuaddau bingo) ac i bobl sy'n gweithio yn y diwydiant.

2.4 Mae tri amcan trwyddedu i'r Ddeddf, a'r rhain sy'n ffurfio sylfaen swyddogaethau'r Awdurdod Trwyddedu. Y rhain yw -

- Atal Hapchwarae rhag bod yn ffynhonnell trosedd ac anhrefn, rhag bod yn gysylltiedig â throsedd neu anhrefn, neu rhag cael ei ddefnyddio i gefnogi trosedd;
- Sicrhau bod Hapchwarae'n cael ei gynnal mewn ffordd deg ac agored
- Amddiffyn plant a phobl fregus eraill rhag cael eu niweidio neu eu hecsbloetio gan hapchwarae.

2.5 Mae Adran 349 y Ddeddf yn gofyn i Awdurdodau Trwyddedu, bob tair blynedd, baratoi a chyhoeddi datganiad o egwyddorion Trwyddedu y

maen nhw'n dymuno eu rhoi ar waith wrth ymgymryd â'u swyddogaethau yn unol â'r Ddeddf.

2.6 Mae'r Datganiad Polisi Hapchwarae cyfredol wedi bod yn destun gwelliannau sylweddol yn 2018, ac er fod y Llywodraeth Ganolog wedi bod yn cydnabod fod angen adolygu y Ddeddfwriaeth o gwmpas rheoleiddio y diwydiant Hapchwarae , nid oes newidiadau sylweddol wedi bod yn ddiweddar o ran rheoleiddio yr elfennau rheini o'r diwydiant sydd yn berthnasol i'r Awdurdodau trwyddedu lleol. Wrth bennu ei Bolisi, rhaid i'r Awdurdod roi sylw i'r Canllaw a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Hapchwarae o dan adran 25 y Ddeddf.

2.7 Mae'r datganiad polisi drafft wedi cael ei adolygu yn unol â Chanllaw'r Comisiwn Hapchwarae i Awdurdodau Lleol a gyhoeddwyd yn 2021 ac a ddiwygiwyd yn 2025.

2.8 Yn ei ganllaw diweddaraf, mae'r Comisiwn wedi atgyfnerthu darpariaethau sy'n gofyn i weithredwyr hapchwarae asesu'r risgiau lleol i'r amcanion trwyddedu sy'n codi yn sgil darparu cyfleusterau hapchwarae ym mhob un o'u heiddo, a chael polisïau, gweithdrefnau a mesurau rheoli i liniaru'r risgiau hynny. Bwriad polisi cenedlaethol yn hyn o beth yw sefydlu dull gweithredu sy'n dryloyw ac wedi'i ategu gan dystiolaeth er mwyn ystyried a rhoi mesurau ar waith i ymdrin â'r risgiau sy'n gysylltiedig â hapchwarae. Wrth wneud yr asesiadau risg yma, dylai deiliaid trwydded ystyried Datganiad Polisi Hapchwarae'r Awdurdod Trwyddedu.

2.9 Mae'r Canllaw hefyd yn annog Awdurdodau Trwyddedu i ddatblygu Proffil Ardal Lleol sy'n amlygu nodweddion allweddol y dylai gweithredwyr eu hystyried.

2.10 Paratowyd yr adolygiad i'r Polisi drafft mewn ymgynghoriad â Grŵp Trwyddedu Gogledd Cymru a'i nod yw cael cysondeb mewn ymdriniaeth ledled y rhanbarth

2.11 Fe dderbyniwyd mewnbwn hefyd gan swyddogion y Gyfarwyddiaeth Iechyd Cyhoeddus Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr , oherwydd pwysigrwydd cynyddol effeithiau gamblo niweidiol ar iechyd cyhoeddus.

## 3. GWEITHDREFN MABWYSIADU

3.1 Bydd ymgynghoriad yn cael ei gynnal ar y Datganiad Polisi Hapchwarae drafft os y'i cymeradwyir gan y Pwyllgor hwn, yn unol ag a349 y Ddeddf fydd yn cynnwys-

- Prif Swyddog yr Heddlu
- Un neu ragor o bobl y mae'r Awdurdod yn barnu eu bod yn cynrychioli buddion pobl sy'n rhedeg busnesau hapchwarae yn ardal yr Awdurdod.

- Un neu ragor o bobl y mae'r Awdurdod yn barnu eu bod yn cynrychioli buddion pobl sy'n debygol o gael eu heffeithio gan yr Awdurdod wrth iddo fynd i'r afael â'i swyddogaeth yn unol â Deddf Hapchwarae 2005.

3.2 Bydd y cyfnod ymgynghori cyhoeddus yn parhau am 12 wythnos a bydd rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu roi sylw i'r ymatebion a dderbynnir yn ystod y broses ymgynghori; a bydd cais yn cael ei wneud i'r Pwyllgor hwn ystyried unrhyw newidiadau posib sy'n deillio o'r broses ymgynghori

3.3 Unwaith bydd y Pwyllgor Trwyddedu'n cytuno ar ddrafft terfynol o'r Datganiad Polisi Hapchwarae; mae Adran 154 y Ddeddf yn datgan bod rhaid i'r polisi gael ei fabwysiadu gan y Cyngor llawn.

## 4. **ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB**

4.1 Mae canllawiau'r Comisiwn Hapchwarae ar lunio ac adolygu polisi yn arwain Awdurdodau Trwyddedu i gymryd i ystyriaeth o nodweddion cydraddoldeb dinasyddion a all gael eu heffeithio gan arferion hapchwarae wrth benderfynu ar geisiadau am drwydded eiddo ac yn y blaen. Mae nodweddion cydraddoldeb felly wedi derbyn ystyriaeth pan luniwyd y Datganiad o Bolisi Hapchwarae er mwyn cydymffurfio a'r Ddeddf yn wreiddiol; a bob tro mae'r Polisi wedi cael ei adolygu yn dilyn hynny.

4.2 Fe gynhaliwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb cynhwysfawr ar y Datganiad o Bolisi Hapchwarae cyfredol, yn dilyn cyfnod o ymgysylltu ar y polisi drafft. Unwaith fydd ymgynghoriad cyhoeddus wedi digwydd ar y datganiad o bolisi drafft , fe fydd yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb yn cael ei adolygu gan ystyried y man newidiadau sydd wedi ei gyflwyno yn y polisi drafft. Os fydd angen unrhyw newidiadau i'r Asesiad Effaith, fe fydd hynny yn digwydd cyn cyflwyno'r Datganiad o Bolisi i'r Cyngor llawn am gymeradwyaeth yn hwyrach yn y flwyddyn.

## 5. **ARGYMHELLIAD**

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y Datganiad Polisi Hapchwarae drafft yn unol â Deddf Hapchwarae 2005 gan ei gymeradwyo ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.